


Llais Cenedlaethol
Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

All Wales People First

The National Voice of People
with Learning Disabilities in Wales

# Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

# Maniffesto

# 2021

www.allwalespeople1st.co.uk




# Cyflwyniad

Sefydlwyd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn 1990 fel Pobl yn Gyntaf Cymru er mwyn lleisio barn pobl gydag anableddau dysgu a grwpiau hunaneiriolaeth ar lefel genedlaethol.




Hyd yma, ni yw'r unig gorff cenedlaethol yng Nghymru o dan arweiniad pobl gydag anableddau dysgu. Ym marn Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, hunaneiriolaeth yw'r ffordd orau o ddarparu eiriolaeth a'r gwasanaeth ataliol gorau posibl.




Nod hunaneiriolaeth yw lleisio barn a chymryd penderfyniadau eich hun. Mae hunaneiriolaeth yn allweddol er gwerthfawrogi cyfraniad pobl gydag anableddau a'u cynnwys fel aelodau cyfartal o gymdeithas. Bydd hwyluso datblygu sgiliau hunaneiriolaeth yn hanfodol er mwyn cynnwys pobl gydag anableddau dysgu ym mhob maes polisi.




# Ein Cenhadaeth

**Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yw llais unedig grwpiau hunaneiriolaeth a phob person gydag anableddau dysgu yng Nghymru. Mae'r corff yn rhannu manylion a gwybodaeth er mynnu hawliau cyfartal a delweddau positif.**

# Ein Maniffesto




Lluniwyd ein Maniffesto gan aelodau cyngor cenedlaethol Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn ystod 2020 a 2021.

Rydym am i aelodau'r Senedd ddeall beth sy'n bwysig i ni a phawb arall gydag anableddau dysgu yng Nghymru.




Rydym am esbonio sut hoffem weithio gyda'r Senedd.

Beth sy'n bwysig i ni yng nghyd-destun etholiad 2021:

1. **Hunaneiriolaeth**
2. **Yr hawl i ddewis sut byddwn yn dynodi ein hunain**
3. **Cyflogaeth**
4. **Trafnidiaeth**
5. **Cydraddoldeb**
6. **Iechyd**
7. **Gadael Ewrop**
8. **Gostwng arferion cyfyngol**




**1. Hunaneiriolaeth**

Mae hawl gan bobl gydag anableddau dysgu i leisio barn eu hunain.




Mae llais, dewis a rheolaeth yn elfennau allweddol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Tanlinellir rôl eiriolaeth yn y Ddeddf ac rydym wedi croesawu hynny. Fodd bynnag, mae cyflwyno contractau



eiriolaeth proffesiynol annibynnol, sy'n rhoi pwyslais ar eiriolaeth un-i-un yn hytrach na hunaneiriolaeth, yn bygwth ein gwaith. Bydd hunaneiriolaeth ond yn effeithiol os bydd grwpiau hunaneiriolaeth yn derbyn cyllid craidd.



Bydd hwyluso hunaneiriolaeth yn ein helpu i ddeall ein hawliau, lleisio ein barn a bod yn aelodau cyfartal o gymdeithas. Wrth helpu i leisio ein barn bydd hunaneiriolaeth yn darparu gwasanaeth ataliol o'r radd flaenaf ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu yng Nghymru, a rhaid ei ddarparu fel gwasanaeth hanfodol.



Os byddwn yn colli'r hawl i leisio barn ein hunain, bydd rhaid i ni ddibynnu ar rieni a gweithwyr proffesiynol a chymorth i siarad ar ein rhan. A byddai hynny'n rhoi ein hawliau nôl yn y sefyllfa fel yr oedd hi cyn llunio Strategaeth Cymru Gyfan 1983. Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn dileu ein hawl i leisio barn. Rhaid osgoi hynny ar bob cyfrif. Os na fyddwn yn cymryd mesurau i atal hynny, BYDD pobl gydag anableddau dysgu yng Nghymru yn colli'r hawl i gael hunaneiriolaeth.




## Galwad gweithredu

- Aelodau'r Senedd ac awdurdodau lleol i gydweithio er darparu cyllid digonol ar gyfer hunaneiriolaeth.



## 2. Yr hawl i ddewis sut byddwn yn dynodi ein hunain

Dros y blynyddoedd diwethaf bu llawer o drafodaeth o'r derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio pobl gydag anableddau dysgu.





Anawsterau dysgu, amhariad gwybyddol a gwahaniaethau dysgu yw rhai o'r disgrifiadau amgen a awgrymwyd gan bobl heb anableddau dysgu. Rydym yn deall y gallai'r termau hyn fod yn agosach at y model anabledd cymdeithasol, ond mae cymryd rheolaeth ac annibyniaeth hefyd yn bwysig yn y cyd-destun hwnnw.

Nid oes hawl gan unrhyw berson i ddweud sut i ddisgrifio pobl gydag anableddau dysgu heblaw am y bobl hynny eu hunain.



Mudiad Pobl yn Gyntaf Cymru yw'r peth agosaf sydd gennym at ymgynghoriad cenedlaethol ar ran pobl gydag anableddau dysgu. Bydd aelodau Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn adolygu ein terminoleg bob tair blynedd.

Yn 2018 dewiswyd 'Pobl gydag Anableddau Dysgu'. Rydym am i bobl barchu a gwrando ar ein penderfyniad.




### Galwad gweithredu

- Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddefnyddio'r derminoleg a bennwyd gan bobl gydag anableddau dysgu.




### 3. Cyflogaeth

Dim ond 5.6% o bobl gydag anableddau dysgu sydd mewn gwaith tâl ond mae llawer mwy ohonynt am weithio.

Mae gwaith yn bwysig i hunan-barch a llesiant pobl, ac yn elfen bwysig o fod yn rhan o'r gymuned a chyfrannu at gymdeithas.




Mae'n fwy anodd i ni gael gwaith nag unrhyw grŵp arall yng Nghymru.

Mae angen cymell cyflogwyr yng Nghymru i greu cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu. Mae llawer o bobl gydag anableddau dysgu wedi llwyddo yn y gweithle o gael addasiadau rhesymol megis gwybodaeth 'easy read' mewn hysbysebion a chyfweliadau, cymorth i ddysgu swydd a thalu am waith intern.




## Galwad gweithredu

- Llywodraeth Cymru i gefnogi mwy o gyfleoedd gwaith tâl ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu yng Nghymru.
- Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i weithio gyda phobl gydag anableddau dysgu wrth lunio neu adolygu polisïau cyflogaeth.






## 4. Trafnidiaeth

Mae pobl gydag anableddau dysgu'n dibynnu ar wasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus. Bydd darparu systemau trafnidiaeth hygyrch, diogel a fforddiadwy yn hanfodol er mwyn ein helpu i fod yn rhan o'n cymunedau a gostwng unigedd.




Er yn croesawu 'teithio llesol' er mwyn gostwng yr effaith ar yr amgylchedd, rydym yn poeni bydd hynny'n arwain at wario llai ar wasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus da.

Mae newidiadau i systemau trafnidiaeth yn cael effaith anghymesur arnom ni, ond ni fydd ymgynghoriadau bob amser wedi'u haddasu er mwyn hwyluso ein cyfraniad. Ni fydd llawer o bobl gydag anableddau dysgu yn cael hyfforddiant i yrru ceir neu feicio, felly mae newid syml i lwybr bws yn gallu arwain at newidiadau sylweddol i'n bywydau ni, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.





Byddwn yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus i weld ffrindiau a'r teulu, mynd i waith a gwirfoddoli. Heb y gwasanaethau hynny, ni fyddwn yn gallu chwarae'r rôl weithgar o fewn cymdeithas a hyrwyddwyd gan ddeddfwriaeth Gymreig allweddol.





### Galwad gweithredu

- Mynediad teg i wasanaethau trafnidiaeth ar draws y wlad gyfan, yn cynnwys.
  - Parhau i ddosbarthu tocynnau bws er hwyluso mynediad i wasanaethau bws a rheilffordd ar



gyfer ni, a chydymaith os bydd angen.

- Gwybodaeth hygyrch am wasanaethau a newidiadau iddynt.
- Staff yn derbyn hyfforddiant trylwyr er mwyn helpu i'n diogelu
- Ein cynnwys wrth gynllunio deddfwriaeth ym maes trafnidiaeth





**5. Cydraddoldeb**

Mae'n bwysig i ni gael ein trin yn gyfartal. Mae pobl gydag anableddau dysgu yn aml yn cael eu trin fel dinasyddion eilradd neu fel plant bach. Fel oedolion, gallwn wneud penderfyniadau dros ein hunain.





Mae llawer gormod o enghreifftiau o bobl gydag anableddau dysgu'n cael eu trin yn annheg ar draws y wlad. Mae anghydraddoldeb yn effeithio pob rhan o'n bywydau - addysg, perthnasau, cyflogaeth, mynediad i wybodaeth a mwy.

Rydym o'r farn byddai cynnwys Confensiwn Hawliau Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig (y Confensiwn) o fewn deddfwriaeth Cymru yn helpu i daclo'r anghydraddoldebau hyn.




**Galwad gweithredu**


- Llywodraeth Cymru i gynnwys y Confensiwn o fewn deddfwriaeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru i sefydlu Comisiynydd Pobl gydag Anableddau Dysgu er hyrwyddo ein hawliau a thaclo




anghydraddoldebau.

## 6. Iechyd


Mae argyfwng COVID 19 wedi cael effaith waeth arnom ni na gweddill y boblogaeth. Yn ôl ymchwil, roedd pobl gydag anableddau dysgu 6 gwaith yn fwy tebygol o farw o COVID na phobl heb anableddau dysgu. Yn aml, roedd modd atal y marwolaethau hynny oherwydd achoswyd gan anghydraddoldebau o fewn y gwasanaeth iechyd a gorchmynion DNR (dim adfywio) diangen.



Datgelodd adroddiad cyfrinachol ar farwolaethau cynnar pobl gydag anableddau dysgu bod modd atal 38% o'r marwolaethau hynny. Yn achos pobl heb anableddau dysgu, roedd y ffigur mor isel â 9%.



Er cynnal iechyd a llesiant, mae'n bwysig i ni gael ffrindiau a pherthnasau, a chyfleoedd i gyfrannu. Gallai llawer o bobl gydag anableddau dysgu sy'n byw mewn cartrefi gofal neu ysbytai fod yn byw yn y gymuned ac yn mwynhau bywydau llawn ac actif.
Mae mwy i fywyd na gwasanaethau.




### Galwad gweithredu

- Llywodraeth Cymru i waredu'r anghydraddoldebau iechyd bydd pobl gydag anableddau dysgu yn wynebu wrth wneud y dilynol
    - Darparu gofal ac ôl-ofal addas
    - Cynnal archwiliadau iechyd blynyddol trylwyr
    - Darparu gwybodaeth hygyrch




o Cynyddu defnydd o'r taliadau uniongyrchol a dulliau seiliedig ar gymunedau wrth gynllunio gwasanaethau

o Hyfforddi a chyflogi mwy o nyrsys anableddau dysgu

## 7. Gadael Ewrop (Brexit)




Rydym yn poeni bydd sgil effeithiau Brexit yn cael effaith andwyol ar bobl gydag anableddau dysgu.

Yn y gorffennol, derbyniodd Cymru gyllid Ewropeaidd ar gyfer projectau'n cefnogi addysg, sgiliau a chyflogaeth pobl gydag anableddau dysgu. Rydym yn poeni bydd colli'r arian hwnnw yn arwain at ostwng neu ddileu'r gwasanaethau hyn.




Nid yw gwleidyddion Cymru na San Steffan wedi treulio llawer o amser yn trafod effeithiau llawn Brexit ar bobl anabl. Rydym yn poeni byddwn yn colli hawliau a ddiogelir gan ddeddfwriaeth Ewrop a gadarnhawyd gan Lys Cyfiawnder Ewrop.

Ni ystyriwyd pobl anabl wrth ddatblygu polisïau Brexit, felly ni ystyriwyd yr effaith ar ein bywydau.




### Galwad gweithredu

- Llywodraeth Cymru i ystyried yr oblygiadau o adael yr Undeb Ewropeaidd ar bobl gydag anableddau dysgu a chreu cynllun i'n diogelu rhag effeithiau anghymesur.




## 8. Gostwng Arferion Cyfyngol

Mae llawer o bobl gydag anableddau dysgu yn parhau i fyw gyda a phrofi gwasanaethau sy'n cyfyngu eu rhyddid. Maent yn cynnwys gorddefnyddio meddyginiaeth, cloi drysau yn ddiangen a gorddefnydd o ataliadau corfforol.




Yn Lloegr, nod Mental Health Units (Use of Force) Act, sef Seni's Law, yw isafu arferion cyfyngol, gwella cofnodi cyfyngiadau a nodi tarddiad achosion o orddefnydd. Mae'n mynnu bod pobl yn gweithio mewn ysbytai iechyd meddwl yn ystyried rhagfarnau  er mwyn osgoi trin pobl yn wahanol oherwydd hil, ethnigedd, crefydd, cenedl, oedran neu anabledd.




Roedd Seni yn ddyn du ifanc a gyflwynodd ei hun yn wirfoddol i ysbyty iechyd meddwl. Ni dderbyniodd y cymorth angenrheidiol ac o ganlyniad collodd reolaeth ar ei ymddygiad. Galwyd yr heddlu, gyda 11 swyddog yn ei ddal ar y llawr. Stopiodd anadlu a bu farw.

Nid Seni yw'r unig berson i ddioddef fel hyn. Mae'n tueddu i ddigwydd yn fwy aml i bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig.




Nid oes 'Deddf Seni' yng Nghymru, ond dylai fod. Gallai ein bywydau ddibynnu ar hynny.

### Galwad gweithredu

- Llywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf debyg i Health Units (Use of Force) Act yng Nghymru

# Crynodeb




## 1. Bygythiad i hunaneiriolaeth

- Angen cyllido hunaneiriolaeth





## 2. Pobl am newid ein terminoleg

- Parchu ein dewis i ddefnyddio 'pobl gydag anableddau dysgu'



## 3. Rydym am weithio

- Cefnogi mwy o gyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu




## 4. Rydym angen gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus

- Holwch ni am sut i'w gwneud yn hygyrch

Llais Cenedlaethol Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

All Wales People First

The National Voice of People with Learning Disabilities in Wales


## 5. Ein trin yn gyfartal ag eraill

- Cynnwys y Confensiwn (UNCRPD) o fewn deddfwriaeth
- Sefydlu Comisiynydd pobl gydag anableddau dysgu




## 6. Mynediad cyfartal i ofal iechyd da

- Dileu anghysonderau iechyd




## 7. Brexit yn effeithio ni fwy nag eraill

- Creu cynllun i'n diogelu rhag effeithiau Brexit



## 8. Cyfyngu bywydau gormod o bobl

- Gwnewch gyfraith yng Nghymru fel Seni's Law